# Gair Bach Bethlehem 55

Rhifyn wedi Gŵyl Dewi 2026

www.bethlehem.cymru [Hefyd ar BlueSky @tycwrddbethlehem.bsky.social Gwaelod-y-garth]
*Arbedwch inc a phapur! Peidiwch ag argraffu hwn – dim ond ei ddarllen ar-lein.)*

# Gŵyl Dewi Gwaelod-y-garth




Aelodau ifanc yr Ysgol Sul fu'n allweddol yn yr oedfa ar Fawrth 1af, dydd Gŵyl Dewi. Mae'r cyfranwyr unigol i'w gweld yn y lluniau sydd ar **dudalen 2** o'r rhifyn hwn. Diolch i bawb fu'n gyfrifol am baratoi'r oedfa.

## YN Y RHIFYN HWN:

- **Gweithgareddau'r cyfnod o Ionawr i ganol mis Mawrth**
- **Neges Delwyn**
- **Gair o Awstralia!**
- **Taith y pererinion i Ben-rhys**
- **Newyddion Bethlehem**
- **Oedfaon diweddar**
- **Cymdeithas Bethlehem**
- **Ac ambell gitâr a morthwyl!**






**Eich tro chi – <u>ie, chi</u> – fydd anfon cyfraniad i'r rhifyn nesaf o'r**

## GAIR BACH


Rhowch bin ar bapur neu teipiwch bwt o erthygl ar yr I-pad neu'r Gliniadur.
Dyddiad cau – y Sul cyntaf o fis Mehefin – sef
**MEHEFIN 7FED**

**Ifan – tycnau@aol.com**






Dyma'r fu'n rhan o oedfa Bore Gwyl Ddewi. Diolch i bawb fu'n paratoi, i Heulwn am ei hanerchiad i'r plant ac am y pice bach!








Cynulleidfa lawn yr oedfa fore Gwyl Ddewi.

Amrywiaeth ym Methlehem


# Rhagor o wynebau'r Sedd Fawr

Allwch chi byth a gwadu nad oes yna gryn amrywiaeth o Sul i Sul yma! Pawb yn cyfrannu at yr addoliad yn eu tro. Dyma gip ar rai o'n hoedfaon diweddar. Fel y gwyddoch, mae sawl oedfa i'w gweld ar Youtube a chasgliad helaeth hefyd ar wefan Bethlehem, diolch i waith ffilmio a chofnodi Heulwen a Wyn Jones. Gwyddom fod yna rai sydd, ambell dro, yn methu mynychu ac yn hynod ddiolchgar am y cyfle i ymuno'n ddiweddarach. Mae Rhodri-Gwynn yn anfon y ddolen i bob oedfa sydd ar gael yn fuan wedi'r Sul dan sylw. Am yr oedfaon a fu – ewch i'r wefan: **www.bethlehem.cymru**









Neges Delwyn

# GWEDDI OSCAR ROMERO



Rhai wythnosau nôl fe gawson ni gwmni difyr y Parchedig Robin Samuel ar fore Sul, ac yn yr oedfa fe ddarllenodd weddi gan Oscar Romero. Esgob Pabyddol yn San Salvador oedd Oscar Romero, a gafodd ei lofruddio gan awdurdodau asgell dde y wlad ar y 24ain o Fawrth, 1980. Fe rannon ni'r weddi eto y Sul diwethaf, a dwi am ei rhannu hi gyda chi eto yma'n y Gair Bach. Bydda i'n sôn mwy am yr Esgob arbennig hwn ar fore Sul y Pasg, ond tan hynny dyma'r weddi o'i eiddo. Gweddi oedd yn taro, nôl yn y ganrif ddiwethaf, ac sy'n dal i daro heddiw.

**"Duw Cariad, ein gweddi wrth i ni gwrdd y bore 'ma, yw y cawn olwg ar y byd fel y mae dy gariad di yn ei ddangos i ni.**
**Byd ble mae'r gwan yn cael eu gwarchod, lle nad oes neb yn dlawd a neb yn newynu.**
**Byd ble mae cyfoeth y greadigaeth wedi'w rannu'n gyfartal a theg, fel bo pawb yn cael ei fwynhau.**
**Byd ble rhoddir gwerth ar bob unigolyn, a phob cenedl yn byw mewn cytgord a pharch.**
**Byd ble mae heddwch wedi ei sylfaenu ar gyfiawnder, a chyfiawnder wedi ei sylfeini ar gariad.**
**Rho i ni'r weledigaeth a'r dewrder i adeiladu ar y sylfeini hyn.**
**Er mwyn yr Iesu. Amen."**

*Óscar Arnulfo Romero y Galdámez*.

**Delwyn.**

## Suliau Mawrth ac Ebrill2026

Mawrth 15 – Parchg Lona Roberts

Mawrth 22 – Parch Aled Edwards

Mawrth 29 – Cymdeithas Bethlehem

Ebrill 3 – Gwener Y Groglith – Ian Hughes
Ebrill 5 – Sul Y Pasg – Delwyn Sion
Ebrill 12 – i'w gadarnhau
Ebrill 19 – Parchg Denzil John
Ebrill 26 – Gwilym Williams

# Taith i Ffynnon Fair

**Alan Williams**



***Oedfa Alan Cooke ysgogodd Alan i gyfrannu'r erthygl isod (gyhoeddwyd gyntaf yng Nghylchlythyr Cymdeithas Edward Llwyd) a rhannu'i brofiad o ddilyn y llwybr o Gadeirlan Llandaf i Ffynnon Fair, Pen-rhys.***

Lleolir pentref Pen-rhys ar ben y mynydd rhwng Rhondda Fawr a Rhondda Fach ac yr oedd yn ganolfan pererindod drwy gydol yr oesoedd canol. Daeth pererinion o bell ac agos i ymweld â ffynnon sanctaidd Ffynnon Fair a chysegrfa'r Forwyn Fair. Y ffynnon yw'r safle Cristnogol hynaf yn y Rhondda sy'n dal mewn bodolaeth, er y gallai ei wreiddiau fod yn llawer hŷn. Credid bod gan ddyfroedd y ffynnon briodweddau iachâu, yn enwedig crydcymalau a diffyg golwg.



Ffynnon Fair

Yn agos i'r ffynnon mae cerflun y Forwyn Fair a godwyd yn 1953 ar safle'r capel canoloesol. Cafodd y cerflun gwreiddiol, oedd yn llawer llai, ei ddinistrio yn 1538 yn ystod Diddymiad y Mynachlogydd.



Cerflun y Forwyn Fair

Dechreuwyd y prosiect i ail-sefydlu ffordd y pererinion o Gadeirlan Llandaf i Ffynnon Fair, Pen-rhys, yn 2018 gyda'r bwriad o gwblhau'r llwybr a'i agor yn swyddogol yn 2020. Mae'r ffordd yn gwneud defnydd o lonydd a llwybrau cyhoeddus, ond oherwydd cyflwr gwael rhai o'r llwybrau roedd angen tipyn o waith arnynt i'w codi i safon dderbyniol a gosod arwyddion.

Yn ystod haf 2020, gyda phethau'n ail-agor ar ôl y cyfnod clo, penderfynodd Jackie a finnau gerdded y llwybr o Radur i Ben-rhys, 17 milltir i gyd. Roeddem eisoes wedi cerdded y 4 milltir o Gadeirlan Llandaf i Radur, felly'r bwriad oedd cwblhau'r bererindod i gyd. Roedd 17 milltir mewn un diwrnod yn rhy hir i ni, ond wrth rannu'r daith roedd yn bosibl gwneud y daith dros 3 diwrnod.

Wrth adael Radur, y nod ar y diwrnod cyntaf oedd cyrraedd Llantrisant rhyw saith milltir i ffwrdd. Mae'r llwybr yn anelu am Ben-tyrch, ond cyn cyrraedd y pentref mae'n troi i'r chwith i gyfeiriad Creigiau. Mae'n werth gwneud dargyfeiriad bach i ymweld ag Eglwys Sant Cadog (Catwg) yn y pentref. Adeiladwyd yr eglwys fach ddeniadol yn 1857 ar safle'r hen eglwys ganoloesol. Gerllaw'r eglwys mae Ffynnon Catwg sy'n bwydo Nant Gwladys. Y cysylltiad â Sant Cadog a Gwladys (mam Cadog) yn awgrymu bod hanes Cristnogaeth yn yr ardal yn hen iawn, efallai mor bell yn ôl â'r 6ed ganrif. Mae'r ffordd ymlaen yn arwain at bentref y Groes-faen ar y brif heol rhwng Caerdydd a Llantrisant. Mae eglwys fach ddeniadol yma hefyd, Eglwys Dewi Sant, a gysegrwyd yn 1892 fel chwaer eglwys i Eglwys Sant Cadog. Ar y cychwyn roedd y gwasanaethau i gyd yn Gymraeg oherwydd y nifer o Gymry uniaith yn y gymuned. Wrth adael y Groes-faen, mae olion hen ddiwydiannau i'w gweld, ond nid cloddio am lo oedd yma ond cloddio am haearnfaen a chalchfaen. Tan ddiwedd y 1970au defnyddiwyd hen chwarel calchfaen Brofiscin i gladdu tunelli o gemegau gwenwynig yn cynnwys PCB (*Polychlorinated biphenyl*) ac Agent Orange, adnabyddus fel llyswenwyn a diddeilydd a ddefnyddiwyd gan luoedd arfog yr UDA fel rhan o'i rhaglen rhyfel gemegol yn Fietnam. Am flynyddoedd gwrthododd cynhyrchwyr y cemegau, BP, Veolia a Monsanto, unrhyw atebolrwydd am y llygredd, ond cafwyd cytundeb yn y pendraw i adfer y safle.

Ar ôl croesi afon Clun, mae'r ffordd yn cyrraedd cyrion hen dref hanesyddol Llantrisant, ond fel pererinion da rhaid dweud gair am eglwys y tri sant, Illtud, Gwynno a Tyfodwg. Mae Llantrisant wedi bod yn safle crefyddol ers o leiaf y 7fed ganrif ac adeiladwyd eglwys y plwyf yn 1095. Ail-adeiladwyd yr eglwys yn 1246 gan Richard de Clare mewn arddull Normanaidd ac ychwanegwyd y twr yn y 15fed ganrif. Un o nodweddion diddorol yr eglwys yw'r ffenestr lliw i gynllun gan Edward Burne-Jones a osodwyd yn y gangell yn 1873.


Ffenestr Llantrisant

Nod yr ail ddiwrnod oedd cyrraedd Dinas Rhondda, 8 milltir o Lantrisant. Mae'r ffordd yn dilyn lôn gul dros gomin Llantrisant cyn cwrdd â Heol Castellau. Enw'r nant sy'n croesi'r comin yw Castellau ac mae wedi rhoi'i enw i'r capel lleol, Capel yr Annibynwyr Castellau.


Capel

Rhyw hanner milltir i lawr y lôn ar gyrion pentref Beddau mae Ysgol Gynradd Gymraeg Castellau, yr ysgol Gymraeg gyntaf i gael ei adeiladu o'r newydd yn y de-ddwyrain. Ychydig i'r gogledd o'r capel mae'r ffordd yn gadael y lôn i ddilyn Nant Muchudd mewn dyffryn coediog hardd, yn enwedig ar ddiwrnod braf iawn yng nghanol haf. Ar gyrion Tonyrefail mae'r ffordd yn croesi'r gweundir ar ochr Mynydd y Glyn gyda Rhiw-garn ar y gorwel, pentref cyntaf y Rhondda mewn golwg. Un filltir a hanner ar ôl, ond roedd ychydig o ddringo caled eto i'w wneud i ben Mynydd y Cymer cyn disgyn i'r cwm.

Llai na dwy filltir sydd rhwng Dinas a Phen-rhys a'r bwriad i ni ar y diwrnod olaf oedd gwneud cylchdaith, sef dringo yn syth i ben y mynydd uwchben Trealaw, dilyn y lôn hynafol o'r Porth i Ben-rhys, disgyn wedyn i Ystrad, croesi'r afon i Lwynypia a cherdded nôl trwy Donypandy. O orsaf reilffordd Dinas, mae'r ffordd yn croesi Heol Brithweunydd oedd ar un adeg y brif heol trwy'r cwm. I lawr yr heol yma i gyfeiriad y Porth mae hen gartref Kitchener Davies oedd yn byw yma rhwng 1940 hyd ei farw yn 1952. Wrth sefyll ger Ffynnon Fair ar brynhawn heulog, roedd y cwm yn edrych yn hyfryd islaw, gyda'r gwyrddni'r llethrau a'r coed yn drawiadol. Cofiaf yn dda seiclo'r holl ffordd i fyny'r cwm i Dreherbert a dros y mynydd i Hirwaun yn y 60au cynnar. Diwrnod o wanwyn, ond glaw man a niwl, gyda'r mwg a llwch o'r gweithfeydd a'r pyllau glo yn hongian yn yr awyr. Erbyn cyrraedd Hirwaun roedd haen o lwch glo dros bopeth, yn fy ngwallt ac yn fy ngheg. I'r hen lowyr y gorffennol, byddai'r cwm heddiw yn anadnabyddadwy.





Llyn Glyncornel

Un ychwanegiad bach i'r daith oedd ar ôl, sef disgyn o Ben-rhys i Ystrad a chroesi'r afon i ymweld â Llyn Glyncornel yn Llwynypia. Adeiladwyd Tŷ Glyncornel gan Archibald Hood, perchennog glofa Llwynypia. Cymaint oedd parch y glowyr tuag ato, codwyd swm sylweddol o arian i godi cofeb iddo ar ôl ei farw yn 1902. Mae'r cerflun yn sefyll heddiw o flaen safle Sefydliad y Gweithwyr ar Heol Llwynypia.

Roedd agor Ffordd y Pererinion wedi rhoi esgus i fi gerdded rhai o'r hen lwybrau fy mhlentyndod yn ogystal â rhai newydd mewn cyfnod fu mor anodd i ni i gyd.

Clonc, Ysgol Sul a morthwyl

# Y Gwaelod ar waith



Coffi, clonc a gwyddbwyll



Prysurdeb yn yr Ysgol Sul



Y morthwylwyr boreol

Bore Sul cynta'r flwyddyn newydd oedd hi a Delwyn yn paratoi i gymryd y gwasanaeth cymun. Y jobyn cynta' oedd codi top y lectern lan i'r lefel oedd yn gyffyrddus iddo fe, ond methodd! Galwodd ar Wyn i gal tro ond, gan fod Wyn yn diodde 'da'i arddyrnau, gofynnodd i'r gohebydd gael tro. Methais droi'r sgriw o gwbwl. Tro Arwel oedd hi nesa ond doedd dal dim symud ar y sgriw. Cyrhaeddodd Dylan John a gwnaeth ei orau ond yr un oedd y stori: - roedd y sgriw yn sownd ffast. Roedd Delwyn yn dechre' becso erbyn hyn na fydde fe'n gallu gweld ei bregeth, a dyna pryd penderfynodd Wyn fynd i'r festri i chwilio am forthwyl. Rhoddodd dair cnoc i'r sgriw gyda'r morthwyl a ... hwrê! Llwyddwyd i droi'r sgriw a chodi'r lectern. Roedd y rhyddhad ar wyneb Delwyn yn amlwg a chafwyd gwasanaeth bendithiol arall.

***Heulwen Jones***

Bethlehem yn gryno

# ✶✶ NEWYDDION ✶✶



Cyfeiriwyd yn ein rhifyn blaenorol at briodas Angharad Gwynneth King a Roman Hryniv ym Methlehem ar yr 8fed o Dachwedd 2025. Ond yr adeg honno, doed ganddon ni ddim llun – felly dyma wneud iawn am hynny!

Cafodd Angharad ei bedyddio yn y capel yn fabi ac fe fynychodd yr Ysgol Sul am flynyddoedd nes iddi fynd i'r brifysgol yn Southampton i astudio meddygaeth. Astudiodd Roman yr un pwnc ym mhrifysgol Bryste, a chyfarfod trwy eu gwaith wnaeth y ddau, tra'n gweithio yn ysbyty Torquay.

Un sy'n wreiddiol o'r Wcráin yw Roman ac iaith cyntaf y teulu yw Wcráin, ond fe symudodd y teulu o'r wlad honno pan oedd ef ond tua 4 mlwydd oed. Buon nhw'n byw mewn gwahanol wledydd Ewropeaidd nes iddyn nhw symud i Durham yng Ngogledd Lloegr. Er eu bod wedi byw yma am dros ugain mlynedd maen nhw'n dal i ddathlu eu hen arferion, e.e. dechrau eu Nadolig hwy yw y 6ed o Ionawr. Mae Roman bellach yn gweithio yng Nghaerdydd yn Ysbyty Prifysgol Cymru, ac mae Angharad newydd ddechrau gweithio yn Ysbyty Treforys ger Abertawe. Mae'r ddau yn hyfforddi fel anesthetyddion.

Mae'r teulu'n ddiolchgar iawn i bawb o'r capel am helpu gyda trefnu'r gwasanaeth ac yn enwedig i Delwyn Siôn, Delyth ar yr organ, Heulwen am ei gwaith fel cofrestrydd, Pwt am helpu gyda'r maes parcio ac hefyd Rhodri am drefnu'r parcio. Yn ôl y teulu, "Roedd hi'n diwrnod hyfryd a hapus!"

Mae mor braf derbyn pob un o'ch cyfraniadau i'r "Gair Bach". Mae'r cyfranwyr yn gallu bod yn brin ambell dro.
Y tro hwn, rydyn ni wedi derbyn deunydd gan nifer o aelodau, o bell ac agos!
Ar y dudalen nesaf, fe welwch newyddion o ben arall y byd.
Cofiwch, os ydyn ni wedi colli rhywbeth o'r rhifyn hwn, rhowch wybod.
Anfonwch lun neu air neu ddau at Ifan ar
tycnau@aol.com / 07761826977

Gwaith Anthony'n teithio

# Bob cam i Brisbane bell

Catherine Blyth



***[Mae gan y Gair Bach ohebydd ochr arall i'r byd! Diolch i un o blant Bethlehem, Catherine Blyth, (Gwaelod-y-garth, gynt) am gofnodi'r isod ac am roi tipyn o hanes teithiau eu mam a'i modryb tra maen nhw wedi bod ar ymweliad â hi.]***

Pa mor bell mae'r llun ar y chwith, o waith Anthony Evans, wedi teithio?

Yr ateb yw tua 16769km. Mae'r llun wedi bod gyda fi ar y Gold Coast yn Awstralia, ar y wal yn edrych allan i'r môr ar un ochr, ac i'r 'hinterland' i'r ochr arall, lle mae'r mynyddoedd yn cyrraedd dros 1350m. Ond cyn bo hir mae'r llun yn mynd ar daith arall o 1800km, lawr i Mornington yn Victoria lle byddaf i'n byw.

Os craffwch chi, fe welwch mai hwn oedd y gwaith gynhyrchwyd gan Anthony adeg dathliadau Bethlehem dair blynedd yn ôl.

(***Yn awr at y lluniau isod – sy'n egluro'n rhannol pam fod sedd dwy o ffyddloniaid Bethlehem, Jean a Mary, wedi bod yn wag yn ddiweddar. Maen nhw wedi bod ar ymweliad â Catherine yn Awstralia – Gol.)***



Tynnwyd rhain yn Blackstone, Ipswich, tref tu allan i Brisbane. Sefydlwyd y Capel yn 1886 i'r glowyr Cymraeg a'u teuluoedd.

Aeth fy mam, fy modryb a minnau i wasanaeth ar nos Sul yn Ionawr (Dydd Santes Dwynwen). Dim ond grŵp bach o bobl oedd yn mynychu'r Capel, neb yn siarad Cymraeg a dim ond un fenyw, Aeres, gyda chysylltiad agos â Chymru. Unwaith y flwyddyn, ar Ddydd Gwyl Dewi, cynhelir cyngerdd gyda Chôr Cymraeg.




Mae un o breswylwyr Ipswich, sef Ken Grubb, wedi sgrifennu llyfr am hanes un o ardaloedd mwyaf hanesyddol Ipswich, 'Coal, Castle and Choirs'. Stori yw hi am hanes y Cymry a ddaeth i weithio yn y pyllau glo yn Blackstone. Nawr does dim llawer ar ôl i'n hatgoffa ni o Gymru yno ond y Capel, arwyddion 'Danger' lle mae adfeilion y pyllau glo a pharc "Brynhyfryd" yng nghanol y pentref.



# Eirlys Davies



Un o blant Llundain, yn wir un o deuluoedd llaeth y Brifddinas, oedd Eirlys Davies, gollwyd o'n plith yn nechrau Rhagfyr. Pan ddaeth yr Ail Ryfel Byd, symudwyd hi a'i chwaer, Megan, i gludwch Dole, ger Aberystwyth, fel dwy "ifaciwî" i fyw gyda'u modryb ac ewyrth. Yn Ysgol Gynradd Llandre ac Ysgol Ardwyn y bu'r addysg gynnar cyn iddi ddychwelyd i ganol gweithgaredd y Cymry yn Llundain a hyfforddi fel nyrs a phriodi Gwylon.


Clywodd y gynulleidfa niferus ddaeth i'w hangladd yn yr amlosgfa gyfoeth o deyrngedau a hanesion gan ei phlant, Rhys, Bryn a Rhian, am holl droeon yr yrfa fu i Eirlys. Ar ôl priodi a chychwyn magu teulu, dyna hi'n troi i ailgymhwyso fel athrawes. Gŵyr pawb ym Methlehem oedd yn gyfarwydd ag Eirlys am ei dycnwch a'u gweithgaredd ac iddi fod yn heini ar hyd ei chyfnod yn ein plith. Nid rhyfedd felly i ni glywed iddi hi a Gwylon reidio tandem bob cam o Lundain i Brifwyl Caernarfon ym 1959!

Ar ôl colli Gwylon pan oedd y plant yn bur ifanc, ymhen rhyw bum mlynedd cyfarfu Eirlys â Cerith a chlywsom iddi fynegi ei theimladau tuag ato'n bur gyhoeddus – yn wir, tra'n ennill ar y gân werin yn Eisteddfod y Cymdeithasau yn Llundain, gyda'i pherfformiad o "Mae Robin yn swil". Fel y nodwyd yn y teyrngedau, ac y gwyddom yn dda ym Methlehem, ni fu cystal dewis o gân nac o bartneriaeth! Ymhlith eu myrdd o ddiddordebau, roedd hi a Cerith yn hoff o deithio, sgïo a cherdded. Hyd yn ddiweddar, roedd Eirlys hefyd ymhlith dyrnaid o ferched yr ardal arferai gerdded yn rheolaidd i gopa'r Garth. Diau y gŵyr y rhai oedd yn oedfa Bore'r Nadolig mai ei chyd-gerddwyr ar y teithiau hynny oedd yn cymryd rhan y bore hwnnw.

Wedi i Cerith ac Eirlys symud o Lundain i Bentyrch, ac yna i Danes Court, ni fu pall ar gefnogaeth y ddau i gorau lleol – Godre'r Garth a Hen Nodiant – nac ychwaith i digwyddiadau o bob math ac, wrth reswm, i'r Tŷ Cwrdd yng Ngwaelod-y-garth. Yn wir, yn ei hwythnos olaf, bu Eirlys yn darllen yn fywiog iawn yn agoriad cyfarfod dechrau Rhagfyr o Gymdeithas Bethlehem. Yn nyddiau Llundain roedd hi'n athrawes ysgol Sul a diacon yn Holloway a bu'n ddiacon yma gyda ninnau am 12 mlynedd – yn ddoeth ei chyfraniad ac yn weithgar ar bob cyfle.

Wrth ategu'n hedmygedd o gyfraniadau Eirlys yn ein plith, estynnwn hefyd ein cydymdeimlad mwyaf didwyll â Cerith yn ei golled, ynghyd â'r holl deulu.

# Ken Evans



Un o Borth Tywyn, sir Gaerfyrddin, oedd Ken Evans, a theg dweud i'w annwyl "Burry Port" fod yn gwbl agos at ei galon er iddo fyw ym Mhentyrch am ran dda o'i yrfa. Wedi ei gyfnod yn ddisgybl yn Ysgol Ramadeg Llanelli, gan gydoesi â rhai eraill cyfarwydd i drigolion yr ardal hon, sef y Dr Rowland Wynne a'r diweddar Brian Davies, Creigiau, graddiodd Ken mewn Ffiseg yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Abertawe. Wedi cyfnod fel athro Ffiseg, cyfeiriodd ei ddoniau i ochr weinyddol addysg uwch a thra yn y gwaith hwnnw enillodd radd M.A. ar sail astudiaethau ym maes systemau addysg. Roedd yn ddirprwy gofrestrydd Prifysgol Metropolitan Caerdydd erbyn adeg ei ymddeoliad yn 2005.

Wedi iddo gwrdd a phriodi â Judith, daeth Alun i lanw'r aelwyd a chlywodd y gynulleidfa niferus yn yr amlosgfa deyrnged gyfoethog a theimladwy Alun iddo, am y gefnogaeth gynnes a'r ddealltwriaeth oedd rhyngddyn nhw – yn arbennig ym myd dilyn rygbi, ac yn benodol wrth gefnogi'r 'Scarlets'.

Nododd Delwyn Sion, wrth arwain y gwasanaeth, fel y bu Ken yn weithgar yn lleol ac yn genedlaethol, gan roi ei ysgwydd dan faich sawl gweithgaredd diwylliannol a gwyddonol, a hynny'n dawel a di-rwgnach. Roedd yn ymwybodol iawn o anghyfiawnderau cymdeithasol a'i enw bob amser ymhlith y rhai a wirfoddolai o Fethlehem i ddarparu'r lluniaeth yn Nhabernacl yr Ais. Ym Mhentyrch, roedd ymhlith y rhai sefydlodd Glwb y Dwrlyn ac yn gyn-gadeirydd a bu'n un o selogion Cymdeithas Wyddonol Caerdydd o'r cychwyn.

Yn y deyrnged hynod annwyl amdano gan y Dr Rowland Wynne, ei gyd-ddisgybl yn yr ysgol uwchradd a chyfaill pentref a gyrfaol, cyfeiriwyd am ei gyfnod fel ysgrifennydd tîm rygbi'r ysgol a hynny yn 1957-58. pan wahoddwyd Llanelli i dwrnamaint saith bob ochr ysgolion bonedd Prydain – a gorffen yn fuddugol gyda'r diweddar Brian Davies, Creigiau, yn gapten. Yn ôl Rowland: "Nid pawb ymysg yr ysgolion bonedd oedd yn hapus gweld rhyw wehilion gwerinol o'r tu fâs yn eu curo ar eu tomen eu hunain. Yn sicr, fe fyddwn i wedi dwli bod yn bryfyn ar y wal - yn clywed Ken yn tynnu blewyn o drwyn rhai o'r byddigions."

I barhau i ddyfynnu Rowland Wynne: "Roedd Ken yn gamster ar hel ache' ac yn gyfarwydd â'i deulu ei hun i'r seithfed ach. ... (ac) un hobi y gwyddwn amdani oedd casglu stampiau. Pan o'wn i yn Rhydychen, daeth ordors i mi fynd i swyddfa bost Cowley, ar ddydd penodol, i brynu stampiau, eu gludo ar amlenni, eu postio o'r swyddfa at Ken. A'r rheswm? Roedd llun car Morris ar y stampiau, ac oherwydd bod ffatri Morris Motors yn Cowley roedd amlenni â marc post Cowley arnyn' nhw yn cynyddu eu gwerth. Yng ngeiriau olaf Rowland "Roedd Ken bob amser yn driw, hael ei gymwynas ac yn un y gallwn wastad ymddiried ynddo. Beth mwy y gall person ddymuno gan gyfaill agos? "

Fel Tŷ Cwrdd, rydyn ni'n cydymdeimlo â Judith, Alun, Holly, Gruffudd ac Eluned yn eu colled.

***Cymdeithas Bethlehem - Ionawr***

# Pori drwy'r Deunydd Darllen

***Ann Jones***




Unwaith eto, cafwyd y pleser o gwmni difyr Shan Osborne yng Nghymdeithas Bethlehem ar Ionawr 23.

Fel arfer, roedd yn llawn syniadau am lyfrau i'n diddanu - ambell i hen ffefryn fel y 'Great Gatsby' a 'Persuasion', hyd at i lyfrau mwy anghyfarwydd fel 'So long, see you tomorrow' gan William Maxwell a 'Time of the child' gan Niall Williams.

Cafwyd hefyd awgrymiadau am lyfrau Cymraeg gwerth eu darllen.

'Almanac:o fis i fis' gan Ruth Morgan a'i thair merch yn rhoi golwg ar flwyddyn gyfan trwy gyflwyno gwahanol themâu yn fisol.

Roedd llyfr am fywyd Dafydd Elis Thomas gan Aled Eurig a Dathlu, bywyd Gareth Miles hefyd yn deitlau poblogaidd.

Diolch Shan, am arwain y drafodaeth, edrychwn ymlaen at flwyddyn nesa!

Mwynhewch y darllen bawb. Dyma rai o'i hawgrymiadau hi, ac eraill o aelodau Cymdeithas Bethlehem:-

**Awgrymiadau...**

*Persuasion*....Jane Austen
*Great Gatsby*...F. Scott Fitzgerald
*So long, see you tomorrow*...William Maxwell
*Crooked Heart*....Lissa Evans
*Plainsong*....Kent Haruf
*Time of the child*...Niall Williams
*Station Eleven*...Emily St John Mandel
*All that man is*...David Szalay
*High wages*....Dorothy Whipple
*Someone at a distance*....Dorothy Whipple
*Miss Pettigrew lives for a day*...Winifred Watson
*The Power of NOW*....Eckhart Tolle

*Dafydd Elis Thomas*...Aled Eurig
*Almanac: o fis i fis*....Ruth Morgan a'i phlant
*Dathlu bywyd Gareth Miles*

**Awgrymiadau eraill.**

Llyfrau Joanna Trollope a Lucinda Riley.....

---



***Pan gyfarfu Cylch Cadwgan yn Efail Isaf, Anthony Evans oedd yn trafod ei waith (ac mae ganddo ef a'i fab, Aron, arddangosfa yn ei oriel ar hyn o bryd yn Stryd Morgannwg ym Mhontcanna.)***

***Cofiwch mai tro Bethlehem yw croesawu'r Cylch Cadwgan nesaf ar Nos Wener 13 Mawrth am 7.30 o'r gloch.***
***Un o'n plith, sef Hefin Mathias, fydd yn trafod "Lloyd George".***

*Pictiwrs Bach Cymdeithas Bethlehem*

# "Ar rhyw b'nawn dydd Sadwrn glawog"

***Marian Ifans***

...Oedd, roedd hi'n bwrw glaw, ond dydd Mawrth oedd hi pan ddaeth Cymdeithas Bethlehem at ei gilydd i fwynhau ychydig o 'nostalgia' sinematig. Ifan oedd wrth y llyw (a Wyn ein dewin cyfrifiadurol, wrth y lluniau.)

Rhywsut neu'i gilydd (peidiwch holi a stilio) roedd Ifan, ar sail hen ddogfennau Bethlehem sydd gan Rhodri-Gwynn wedi cael gafael ar ddau "glip" rhyw 10 munud o hyd (yr un) o raglenni ar ffilm yn ymwneud â Bethlehem. Y gyntaf oedd ffilm o John Charles Davies, fyddai yn arwain yr "Ysgol Gân" yn barod i'r Gymanfa. Cynhelid yr achlysur ar ddydd Gwener y Groglith a thrylwyr fyddai'r paratoi!

A'r ail ddarn oedd Ifor Rees yn holi T. W. Thomas a John Charles yn sêt fawr y capel.

Wrth edrych ar y ffilm gyntaf roedd rhai ohonom, oedd yn aelodau o '75 ymlaen, yn cofio aelodau fel Joan Rees, gwraig Ifor, a Nansi Milward yn yr Ysgol Gân a T. J. Morgan, tad Rhodri Morgan, yn y ffilm gyntaf.

Llifodd sawl atgof o ffilm '75 i'r cof. Fel byddai Nansi yn cael paned yn ei thŷ yn Garth Villas ar ôl capel y bore. Hefyd fel y penliniai "T. W." yn y set fawr wrth offrymu gweddi ac fel y byddai'n 'porthi', neu fel y rhoddai T. W. a Gordon Davies (H.M.I!) eu pibell llawn baco ar y stepen drws cyn y "cwrdd". Doedd dim seddi "wan and nine" yn y festri y tro hwn ond llifodd sawl atgof i'r cof. Diolch Ifan am y diddanwch.

******

*Dyma gipluniau o'r fideo fu'n rhan o'r "Ysgol Gân" ffilmiwyd ym Methlehem ym 1972. Mae Marian eisoes wedi enwi rhai. Tybed pwy arall o'n plith all roi enw i ambell un arall o'r gynulleidfa isod?*

(llun uchaf) Y gynulleidfa ym Methlehem 1972 (*yna -chwith isaf*) Arweinydd yr ymarferion, John Charles Davies (*llun canol* ) Yn cwrdd â'r cyn löwr lleol, Willie Charles Thomas (*dde*) Iard yr ysgol gynradd ym 1972.



# Rhodri'n agor y llyfrau


Byddai disgrifio Rhodri-Gwynn fel un "diwyd" yn gwneud cam a'n hysgrifennydd ym Methlehem. Dichon nad oedd hyd yn oed ei gyflwyno fel "peiriannydd sifil o lenor" gan un o'i gyfoedion o Ddyffryn Nantlle, Marian Ifans, ychwaith yn gwbl ddigonol i'r sgwrs gafwyd y tro hwn ganddo yn Y Gymdeithas.

Ers tro, mae o wedi ymgymryd â thasg orchestol o grynhoi pob deunydd a chofnod gallech chi ei ddymuno am Fethlehem, Gwaelod-y-garth - o'r dechrau'n deg. Mae eisoes wedi gosod rhai dogfennau ar wefan y Tŷ Cwrdd, ond y tro hwn bu'n datgelu rhagor.

Roedd peth o'r deunydd newydd yn drysorau coll ddaeth drwy law un o gyn-ysgrifenyddion Bethlehem a'r gweddill yn ganlyniad i ysfa Rhodri-Gwynn i dwrio drwy bob archif sy'n bodoli. Clywsom fel mae'r casgliad gwerthfawr o daflenni'r Cymanfaoedd Canu wedi cynyddu – gan gynnwys emyn-donau a geiriau o waith yr aelodau.


Capel Tai Hirion

Fe'n hatgoffwyd o gychwyniad yr achos yn yr ardal, o ddyddiau'r adeilad cynharaf, sef ardal Tai-hirion, ger Capel Llanilltern, a'r cysylltiad fu ag addoldai eraill y cylch. Dadlennwyd sawl cyflog a "bonws Nadolig" y bu'r diaconiaid yn fodlon eu talu i'r gweinidogion fu yma - heb sôn am y lwfans llety i bregethwyr "o bant" ddyfarnwyd i briod y cennad lleol! Do, bu o leiaf un yma am gyfnod maith – a do, cofnodwyd yn gynnil fod ymadawiad un arall i Gaerffili wedi siomi'r cyflogwyr!


Y gyfrol a'r casglwr

Dau lyfryn – un o gofnodion cyffredinol a'r llall yn nodi bedyddiadau, priodasau a marwolaethau – fu testun ail hanner y sgwrs. Oedd, roedd yno gofnodion o alw bugeiliaid a phenodi diaconiaid oedd yn enwau o'r ganrif a fu, ond yn naturiol roedd dyfynnu enwau rhai oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn taro tant pur wahanol.

Wnawn ni ddim datgelu blwyddyn bedyddio "Mary Barbara Edwards" – nac ychwaith ddyddiad derbyn ei chwaer "Jean" yn gyflawn aelod. Cewch chi eu holi nhw yn yr oedfaon! Y ddwy chwaer, yn bendant, ydy'r unig wir breswylwyr lleol sydd wedi bod yma'r holl flynyddoedd. Cystal hefyd datgelu y bu yna un bedydd dwbl nodedig (yn eitha hwyr, fe dybiwn) ym 1954, sef rhai Rhodri Morgan a Prys Morgan, meibion T J Morgan!


Ac i gloi, gyda'r atgofion yn llifo wedi'r holl datgelu, roedd gan y cyflwynydd un perl arall ar ein cyfer – sef clip agoriadol o'r oedfa ddarlledwyd un Nadolig gan HTV dan arweiniad y Parchedig T. J. Davies a phlant Bethlehem (sydd bellach yn rhieni eu hunain) yn canu'r garol agoriadol.



Pnawn i'w drysori!

Diolch i Marian am lywyddu ac i Carol am gyflwyno'r gerdd am Y Fam Theresa.

***IR***



# LLYFFETHEIRIAU'R ENAID DYNOL

***Wynford Ellis Owen***

**Yr Ymlyniad (*Attachment*) Sy'n Ein Cadw Rhag Ein Hunain:** Mae bywyd y dosbarth canol yn aml yn cynhyrchu ei ffurf ei hun o ddibyniaeth - y ddibyniaeth dawel honno sy'n ymddangos fel ein bod yn rhydd. Mae llawer yn byw o fewn y math diogel hwn o ddibyniaeth - gyrfaoedd sy'n gweithio ar yr wyneb, perthnasoedd parchus eu golwg, ac arferion sy'n cadw'r bywyd allanol yn daclus, hyd yn oed wrth i'r bywyd mewnol ddadfeilio. Dyma'r bobl sy'n dweud wrth y byd eu bod yn "iawn"-ac oherwydd eu bod yn ymddangos yn "iawn", maen nhw'n argyhoeddi eu hunain nad oes angen unrhyw gymorth arnynt. Mae'r hunan-dwyll hwn yn un o'r rhwystrau mwyaf i dwf ysbrydol.

**Mae Ymlyniad Bob Amser yn Ein Diffinio Cyn Ein Dinistrio:** Mae ymlyniad yn dweud wrthym pwy sydd gennym hawl i fod, ac yn sibrwd sut y dylem deimlo a meddwl. Ac eto, hyd yn oed pan wyddom fod yr ymlyniad yn disbyddu ein bywioldeb, yn niweidio ein perthnasoedd ac yn rhwystro'r llwybr at Dduw, mae rhywbeth o'n mewn yn ein hatal rhag gollwng gafael arno. Rydym yn glynu wrtho fel pe bai'n achubiaeth - pan, yn wir, ef yw'r pwysau sy'n ein tynnu i lawr i ddifancoll.

**Pensaernïaeth Fregus Hunanddelwedd:** Mae nifer yn ofni y byddai cyfaddef gwirionedd eu dibyniaeth yn cracio'r hunaniaeth y maen nhw wedi treulio oes yn ei chreu. Ni all eu synnwyr o hunan - cryf, cyson, hunanddigonol - ddioddef ymyrraeth unrhyw beth sy'n ogleuo o wendid. Mae adferiad yn gofyn iddyn nhw ddweud, "Rwy'n ddi-rym, yn ddiymadferth," ac mae hynny'n teimlo fel ymosodiad ar sylfeini eu bodolaeth. Tybiant, eu bod yn well iddyn nhw ddioddef yn dawel na mentro dymchwel y ddelwedd ffals y maen nhw'n ei dangos i'r byd.

**Dibyniaethau Parchus:** Nid yw pob dibyniaeth yn edrych fel dinistr. Mae rhai'n gwisgo dillad normalrwydd:

- Potel o win yn cael ei hyfed bob min nos fel esgus i "ymlacio".
- Gwaith sy'n cael ei wneud bob munud o'r dydd, yn cael ei ganmol fel ymroddiad,
- Cysur materol sy'n ffugio fel sefydlogrwydd.
- Dibyniaeth ar gymeradwyaeth, perffeithrwydd neu gyrhaeddiad sy'n cael eu hystyried fel uchelgais.

Mae'r dibyniaethau hyn yn cael eu cuddio'n gymdeithasol ac felly'n ysbrydol farwol. Oherwydd eu bod yn 'barchus' nid ydyn nhw'n arwydd o argyfwng, does dim galwad i ddeffro na gwaelod dramatig iddynt. Maen nhw'n dawel yn gwahanu person oddi wrth ei enaid ei hun.

**Bagl Deallusrwydd:** Mae ymwadiad (*denial)* ymysg y dosbarth canol yn aml yn fater soffistigedig. Gall meddwl galluog, craff greu rhesymoliadau mor gain fel eu bod bron yn ymdebygu i ddoethineb. Gall person felly feddwl yn well ac yn gyflymach nag eraill a chreu drysfa gymhleth o esboniadau i osgoi'r gwir syml: nid yw fy mywyd yn gweithio. Ni all unrhyw un fod yn rhy dwp i adfer, ond gall un fod yn rhy glyfar o'r hanner!

**Yr Ofn o Dan Bob Ofn:** Mae dibyniaethau'n parhau oherwydd eu bod yn cuddio rhywbeth dyfnach - clwyf nad yw wedi'i fynegi, gwacter sydd wedi'i hir osgoi, atgof rhy boenus i'w gyffwrdd. I wynebu'r ddibyniaeth yw wynebu'r hyn sy'n gorwedd oddi tano. Mae nifer yn ofni petaen nhw byth yn agor y drws hwnnw, y byddai eu byd mewnol cyfan yn torri'n deilchion. Felly, maen nhw'n dewis y dioddefaint cyfarwydd oherwydd ei fod yn teimlo'n fwy diogel na'r rhyddid anghyfarwydd.

**Cysur fel Tawelyddiad:** Gall cysur materol a chymdeithasol achosi diffyg teimlad ysbrydol. Mae'n cynnig dim ond digon i gadw person rhag byth gyrraedd yr anobaith sy'n arwain at ildio. Maen nhw'n dioddef, ydyn - ond dim ond yn araf, sy'n ddigon i gadw i fynd ac i osgoi unrhyw newid. Ac felly, mae eu henaid yn aros, yn dioddef yn dawel, y tu mewn i fywyd sydd i bob pwrpas yn ymddangos yn llawn yn allanol.

**Gwarth cael Eich Gweld:** Mae cywilydd yn sibrwd ei gelwydd: "Petai unrhyw un yn gweld y gwirionedd, bydden nhw'n troi i ffwrdd oddi wrthym." Ac felly, mae person yn cadw ei ddioddefaint yn breifat - yr union beth sy'n caniatáu iddo barhau. Maen nhw'n ysu am wella ond yn gwrthsefyll yr union freguster a fyddai'n gwneud gwella'n bosibl.

**Pam Dewis Dioddefaint yn Lle Llawenydd?** Oherwydd bod dioddefaint yn gyfarwydd. Yn ddisgwyliadwy. Yn sicr. Mae llawenydd yn gofyn am ildio. Mae rhyddid yn gofyn am farwolaeth yr hunan ffals. Ac mae hyn, i'r ego, yn teimlo fel difodiant.

**Ond y gwirionedd ysbrydol mawr yw nad yw ildio'n farwolaeth. Mae'n enedigaeth - ail eni'r gwir hunan sydd wedi'i gladdu o dan haenau o ofn, ymwadiad ac ymlyniadau dirifedi. Dywed yr ymlyniad, "Ni allwch fyw hebof fi." Etyb yr enaid, "Ni allwch fyw oni bai eich bod yn gollwng gafael - a hynny'n gyfan gwbl."**

Rhif Ffôn: 07796464045 / 029 2063 0993 E-bost: wynford@recovery-council.org
Gwefan: www.cyngor-adferiad.org; www.cynnal.uk; www.stafell-fyw.uk

**Ionawr 11, 2026** https://youtu.be/C0LGiSURe-I

# Plygain Bethlehem

Unwaith eto eleni, cafwyd partïon niferus yn canu yn Y Plygain – rhai lleisiau cyfarwydd a rhai oedd yn wynebau newydd yn ein plith. Fel gwelwch ar y ddolen uchod, mae'r cyfan ar gof a chadw ar YouTube.



